

Gwybodaeth Ychwanegol at y Cyfarfod Llawn Information Further to Plenary

Cyhoeddir ymatebion yn yr iaith y'u darparwyd, gyda chyfieithiad Saesneg o ymatebion yn y Gymraeg.

Responses are published in the language in which they are provided, with a translation into English of responses provided in Welsh.

Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(4)0485(FM) a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Prif Weinidog, ar 25 Mai 2012

Information further to OAQ(4)0485(FM) issued by Carwyn Jones, the First Minister, on 25 May 2012

At/To Rhodri Glyn Thomas:

GWASANAETHAU BYSIAU RHWNG LLANBEDR PONT STEFFAN A LLANYBYDDER

Yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Mai, addewais ysgrifennu atoch ynglŷn â'r gwasanaethau bysiau rhwng Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder.

Mae'n ddrwg gennyf glywed am y pryderon ynghylch y gwasanaethau bysiau yn Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder. Rwy'n deall fod Bysiau Arriva Cymru wedi cyflwyno gwasanaeth bws masnachol rhif 40 newydd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin ar 21 Chwefror. Am resymau masnachol, penderfynodd Bysiau Arriva Cymru newid llwybr y gwasanaeth hwn ac nid yw'n mynd i Bencarreg nac i'r pentrefi eraill cyfagos yn awr. Roedd y gwasanaeth hwn yn cymryd lle gwasanaeth blaenorol X40 TrawsCambria a ariannwyd gan Llywodraeth Cymru, a oedd yn galw ym mhentrefi Pencarreg, Cwm-ann a Chribyn.

Ar y pryd, edrychodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â Chynghorau Sir Caerfyrddin a Cheredigion, ar amryw o ddewisiadau er mwyn diogelu'r gwasanaethau i'r pentrefi hyn. Mae darpariaethau yn Neddf Trafnidiaeth 1985 ac yn Neddf Trafnidiaeth Cymru 2006, fodd bynnag, yn gwahardd Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol yn benodol rhag cymryd unrhyw gamau a fyddai'n llesteirio cystadlu ar y farchnad agored wrth ddarparu gwasanaethau bysiau masnachol lleol. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu parhau i roi cymhorthdal i'r gwasanaeth X40 blaenorol gan y byddai'n cystadlu â'r gwasanaeth 40 masnachol newydd ar hyd y rhan fwyaf o'r daith rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin.

Roeddem ni a'r Cynghorau Sir yn poeni am effaith y newidiadau hyn i'r gwasanaeth ar bobl sy'n byw yng Nghwm-ann, Pencarreg a Chribyn. Mewn ymateb i hyn, aethom ati i ehangu'r gwasanaeth ymatebol Bwcabus, sy'n hynod boblogaidd, fel y gallai pobl Pencarreg ddal i deithio i Lanbedr Pont Steffan, yn ogystal â chysylltu â gwasanaeth rhif 40 newydd. Mae hyn yn ychwanegol at y gwasanaethau 288 a 289, sy'n derbyn cymhorthdal ac yn cael eu rhedeg gan Morris Travel, a'r gwasanaeth 540 sy'n cael ei redeg gan Lewis Coaches, sydd hefyd yn darparu gwasanaethau i Bencarreg.

Hyd yn hyn, rydym wedi derbyn ymateb da o ran nifer y bobl sy'n byw yng Nghwm-ann, Pencarreg a Chribyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth Bwcabus. Gellir cael gwybodaeth am y gwasanaeth Bwcabus drwy ffonio 01239 801601 neu drwy e-bostio: bwcabus@carmarthenshire.gov.uk.

BUS SERVICES BETWEEN LAMPETER AND LLANYBYDDER

In Plenary on 1 May, I promised to write to you about bus services between Lampeter and Llanybydder.

I am sorry to hear of the concerns about bus services in Lampeter and Llanybydder. I understand that on 21 February, Arriva Buses Wales introduced a new number 40 commercial bus service between Aberystwyth and Carmarthen. For commercial reasons, Arriva Buses Wales have decided to operate a different route for this service and it now misses out Pencarreg and other nearby villages. This service replaced the previous X40 TrawsCambria service which was funded by the Welsh Government and called at the villages of Pencarreg, Cwmann and Cribyn.

At the time, the Welsh Government, together with Carmarthenshire and Ceredigion County Councils, looked at a range of options for protecting services to these villages. However, provisions in the Transport Act 1985 and the Transport Wales Act 2006 expressly prohibit the Welsh Government or local authorities from taking any action that would inhibit open market competition in the provision of commercial local bus services. This meant that we could no longer subsidise the previous X40 service as it would compete with the new commercial 40 service over most of the route between Aberystwyth and Carmarthen.

We and the County Councils were concerned about the impact these service changes would have on people living in Cwmann, Pencarreg and Cribyn. To address this, we arranged the extension of the very popular Bwcabus demand responsive service, so that people in Pencarreg could maintain access to Lampeter and could also connect to the new number 40 service. This is in addition to the subsidised 288 and 289 services operated by Morris Travel and the 540 service operated by Lewis Coaches that also provide services to Pencarreg.

So far, we have received good feedback on the take-up of the Bwcabus service from people living in Cwmann, Pencarreg and Cribyn. Information about the Bwcabus service can be obtained by telephone on 01239 801601 or by e-mail: bwcabus@carmarthenshire.gov.uk.

Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(4)0476(FM) a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, Y Prif Weinidog, ar 4 Mai 2012

Information further to OAQ(4)0476(FM) issued by Carwyn Jones, the First Minister, on 4 May 2012

At/To Darren Millar:

Rt Hon George Osborne MP
Chancellor of the Exchequer
HM Treasury
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ

30 April 2012

Dear George,

I am writing regarding the proposed introduction of 20% VAT on the sales of static caravans and larger touring caravans.

The Welsh Government has received a number of representations about the potential effect that the introduction of VAT on caravans would have on the tourism industry in Wales. Interested parties are concerned that, if these changes to VAT were to go ahead, the impact on Wales' rural and coastal economies would be disproportionately higher than elsewhere in the UK, given the high percentage of holiday accommodation provided by caravans in Wales.

I would be grateful for your comments on these concerns.

I am copying this letter to the Secretary of State for Wales.